

Bwletin 5 - 3/6/20

Annwyl Riant / Ofalwr,

“Daw hyfryd fis Mehefin cyn bo hir” yw geiriau’r gân draddodiadol, ac fe gyrhaeddodd mis Mehefin ar ôl wythnos o seibiant gwyliau’r Sulgwyn. Dyma ni felly wedi cyrraedd hanner tymor olaf y flwyddyn academiaidd hon – a dyna flwyddyn ydy hi wedi bod!



Nid yw’r Ysgol wedi derbyn unrhyw wybodaeth a fydd disgyblion yn dychwelyd i’r ysgol cyn gwyliau’r haf. Yr unig beth a wyddwn i sicwydd yw na fydd ysgolion yn ail-agor ym mis Awst yn dilyn cyhoeddiad gan Brif Weinidog Cymru ddydd Gwener. Fodd bynnag, efallai y bydd rhywfaint o eglurder ynghylch y camau nesaf pan fydd y Gweinidog Addysg yn gwneud cyhoeddiad heddiw.

Ers bore Llun mae ein disgyblion a’n staff wedi ail-gydio yn y dysgu o hirbell. Y tro hwn mae disgyblion blynyddoedd 7-9 wedi derbyn amserlen i’w dilyn os ydynt yn dymuno gwneud hynny (mae hyn mewn ymateb i sylwadau yn yr holiadur i rieni). Rhannwyd yr amserlenni gyda’r disgyblion fore Llun gan yr Arweinyr Cynnydd a Lles.

Blwyddyn 12

Dylai myfyrwyr Blwyddyn 12 fod yn dechrau ar waith bl 13 yr wythnos hon. Mae hefyd yn gyfle gwerthfawr iddynt wneud ymchwil i wahanol gyrsiau Prifysgol yn ogystal â dechrau llunio datganiad personol ar gyfer eu ffurflen UCAS.

Blwyddyn 11

Dylai’r myfyrwyr fod yn/wedi ymuno â ‘Classroom’ y pynciau hynny mae ganddynt ddiddordeb eu hastudio yn y Chweched Dosbarth. Byddant yn cael eu cyfeirio i ymgymryd â thasgau / darllen deunyddiau perthnasol yn baratoad at eu hastudiaethau ym mlwyddyn 12, ond ni fydd y gwaith addysgu ffurfiol yn dechrau tan fis Medi. Bydd y Diwrnod Blas Gwersi Rhithwir yn cael ei gynnal ar [Fehefin 23](#).

Blwyddyn 10

Mae’n bwysig bod Blwyddyn 10 yn parhau i ymrwymo i’w hastudiaethau. Mae pob adran bellach wedi symud ymlaen at waith o’r newydd ble mae’r dysgwr yn datblygu ei sgiliau ymhellach ac yn dysgu o’r newydd. Rydym yn dal i aros am ganllawiau pellach a fydd yn cael eu rhannu y mis hwn gan Cymwysterau Cymru ynghylch arholiadau TGAU 2021 cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Blwyddyn 9

Dylai’r dysgwyr fod yn dewis eu pynciau TGAU yn derfynol ar gyfer blwyddyn 10 [cyn Mehefin 26](#) drwy ddilyn y canllawiau ar Classroom y flwyddyn.

Blwyddyn 8

Bydd manylion dewisiadau pynciau opsiwn ar gyfer blwyddyn 9 yn cael eu rhannu gyda chi a’r dysgwyr ar [Fehefin 22](#).

Pontio Blwyddyn 6

Os oes gennych blentyn ym mlwyddyn 6 cofiwch ymweld â safle Pontio Glantaf <https://sites.google.com/glantaf.cymru/pontio-glantaf/hafan> i dderbyn gwybodaeth ynghylch y broses bontio a'r ysgol. Bydd Ysgol Glantaf hefyd yn cynnal Wythnos Pontio Ar-lein yn ystod wythnos Mehefin 15 ble bydd tasgau'n cael eu rhannu ar safle Pontio Glantaf bob dydd gyda'r dysgwyr.

Wythnos Lles

Bu'r Wythnos Lles a Chodi Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yn llwyddiant ysgubol ac roedd hi'n braf gweld creadigrwydd ein disgyblion wrth iddynt ymgymryd â'r gwahanol dasgau. Gwelwyd nifer o'r tasgau yn ystod yr wythnos ar wahanol gyfrifon Twitter yr ysgol ac maent oll i'w gweld gyda'i gilydd yma <https://sites.google.com/glantaf.cymru/cofnodi-cyfnod-clo>

Bu disgyblion Bl 11,12,13 a staff yr ysgol yn rhith-gerdded pellter o 152km (cyfanswm hyd yr afonydd Taf, Elai a Rhymini yng Nghaerdydd) gan geisio codi swm o £1000 i elusen Banciau Bwyd Caerdydd. Mae amser o hyd i chi gyfrannu drwy'r ddolen <https://www.justgiving.com/fundraising/chweched-glantaf1>

Cymorth Lles ac Emosiynol

Hoffem estyn cydymdeimlad i'n holl deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y cyfnod yma a'ch sicrhau ein bod yn parhau i fod yma i chi ac i'r dysgwyr, yn gefn i chi bob amser. Mae **Child Bereavement UK** yn elusen sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n dioddef yn sgil profedigaeth **Ffôn: 0800 02 888 40** **E-bost: support@childbereavementuk.org**

Erbyn hyn, dylai eich plentyn fod wedi ymuno â Classroom eu dosbarth cofrestru. Dylai hyn eu helpu i deimlo'n rhan o gymuned lai a chynnig cyfle iddynt sgwrsio gydag aelodau eraill y dosbarth, cynnal gweithgareddau a heriau a chael cefnogaeth emosiynol gan eu hathro dosbarth pe bai angen. Os nad yw eich plentyn wedi derbyn y côd yma yna gofynnwch iddynt ebostio eu pennaeth blwyddyn.

Hoffwn dynnu eich sylw at gamgymeriad yn y bwletin diwethaf ac mai rhif ffôn y gwasanaeth cwnsela yw **02922330709**.

Dyma gyfeiriadau gwefannau defnyddiol ychwanegol i chi:

Action for Happiness - Gweithgareddau iechyd a lles yn y cartref ar gyfer teuluoedd i ofalu am ein hunain ac am ein gilydd. <https://www.actionforhappiness.org/calendars>

Childnet - Amrywiaeth o gemau, llyfrau a gwybodaeth am aros yn ddiogel ar-lein. Mae hidlyddion yn eich galluogi i ddewis yr oedran priodol. Cynradd ac Uwchradd. <https://www.childnet.com/resources>

Kooth - Llwyfan cwnsela a lles emosiynol ar-lein am ddim i blant a phobl ifanc. <https://www.kooth.com/>

MEIC - Cymorth dwyieithog ar-lein/ffôn/testun i bobl ifanc **Ffôn: 080 8802 3456** **Testun: 84001** <https://www.meiccymru.org/>

Os hoffech dderbyn un o'r pecynnau isod i'ch cefnogi ymhellach ebostiwch bn@glantaf.cardiff.sch.uk

- Cefnogi teuluoedd galarus yn ystod y pandemig Coronafeirws (COVID-19)
- Cyngor i deuluoedd yn ystod y pandemig Coronafeirws (COVID-19)
- Addysgu o adref yn ystod y Pandemig (COVID-19)
- Tasgau Iechyd a Lles i deuluoedd

Cofiwch fod cyfrif Lles yr ysgol ar Twitter **@LlesYsgolGlantaf1** yn cynnig gwybodaeth am faterion lles ac iechyd meddwl gyda dolenni i wefannau gan fudiadau, elusennau ac asiantaethau allanol.

Cylchgrawn Taf@af

Mae rhifyn cyntaf cylchgrawn Taf@af gan Bwyllgor Addysgeg y Chweched Dosbarth wedi'i gyhoeddi (dyma linc i'r cylchgrawn a'r fideos https://twitter.com/glantaf_tafataf) ac mae croeso i ddysgwyr o bob oedran gyfrannu. Bwriad y cylchgrawn yw cryfhau cymuned yr ysgol ymhellach trwy ddarparu llwyfan i'r disgyblion rannu eu hanes a'u diddordebau. Os hoffai eich plentyn gyfrannu deunydd i gael ei ystyried i'w gynnwys yn y cylchgrawn ebostiwrch mr3@glantaf.cymru

Eisteddfod T

Llongyfarchiadau i bawb a brofodd lwyddiant mewn unrhyw fodd yn yr eisteddfod rithwir a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf ar S4C a Radio Cymru:-

Heledd bl 11 – Y Prif Gyfansoddwr – 3ydd
Lewys bl 9 – Her Chwaraeon – 2il
Jacques bl 13 – Unawd Offerynnol bl 10 a dan 19 oed – 2il
Heledd bl 11 – Unawd Offerynnol bl 10 a dan 19 oed – 3ydd
Ioan bl 12 – Dawns Gyfoes Unigol neu Grŵp bl 10 a dan 25 oed – 1af
Ioan bl 12 – Dawns Werin Unigol i Fechgyn bl 7 a dan 25 oed – 3ydd
Indeg bl 9 – Cân Wreiddiol 'Hunanynysu' – 3ydd
Merched bl 7-11 – Côr Merched PlasTaf – 3ydd

Roedd hi'n braf hefyd gwyllo cyn-ddisgyblion yn cystadlu, perfformio, beirniadu a gosod heriau. Roedd yn eisteddfod amrywiol a lwyddodd i godi calon mewn sawl ffordd.

Canllawiau'r Llywodraeth

Gofynnwn i chi fel rhieni / gofaluwr i atgoffa eich plant o ganllawiau'r Llywodraeth. Pryderwn, oherwydd y tywydd cynnes, fod temtasiwn i bobl ifanc ymgasglu'n griwiau – nid yw hyn yn cael ei ganiatáu. Daw'r neges hon oddi ar gyfrif Twitter Heddlu De Cymru 31/5/20:-

"Rydym wedi cael galwadau am nifer o achosion o grwpiau o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac rydym yn annog rhieni i gadarnhau ble mae eu plant. Mae hyn yn cynnwys neidio i mewn i ddŵr o uchder – gweithgaredd a elwir yn 'tombstoning' – ac yfed alcohol o dan oed.

Nid yn unig y gallai'r gweithgareddau hyn fod yn beryglus, ond mae rhai ohonynt yn anghyfreithlon. Maent hefyd yn torri deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, a gallai rhieni fod yn atebol am hynny. Rydym yn gofyn i chi ystyried yr effaith y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol ei chael ar bobl eraill, ein gwasanaeth iechyd neu'r ymdrechion i drechu'r feirws hwn."

Buan iawn y bydd saith wythnos olaf y flwyddyn ysgol yn diflannu. Yn y cyfamser, gofaluwrch am eich teuluoedd a'ch gilydd gan roi blaenoriaeth i les corfforol a meddyliol. Cadwch yn ddiogel a dilynwch ganllawiau'r Llywodraeth.

Alun Davies a Staff Glantaf